



Urdd

Hei Mistar Urdd

Hei Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a gwyrdd
Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni.
Hei Mistar Urdd, ty'd am dro ar hyd y ffyrdd
Cawn ganu'n cân i holl ieuenctid Cymru

Gwelais di'r tro cyntaf 'rioed yn y gwerysll ger y lli
A chofiaf am yr hwyl fu yno'n hir.
Dyddiau hir o heulwen haf, y cwmni gorau fu
Ac af yn ôl i aros cyn bo hir.

Hei Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a gwyrdd
Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni.
Hei Mistar Urdd, ty'd am dro ar hyd y ffyrdd
Cawn ganu'n cân i holl ieuenctid Cymru

Noson hir o aeaf oer, fe welais di drachefn
Dangosaist fod 'na rywle i mi fynd.
Dyma aelwyd gynnes iawn a chriw 'run fath â fi
A chyfle i adnabod llawer ffrind.

Hei Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a gwyrdd
Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni.
Hei Mistar Urdd, ty'd am dro ar hyd y ffyrdd
Cawn ganu'n cân i holl ieuenctid Cymru

Diolch i ti, Mistar Urdd, dangosaist i mi'n glir
Fod gennyf rywbeth gwych i'w roi i mi.
Gwerysll haf a chwmni braf mewn cangen ymhob tre'
A gobaith i'r dyfodol ynot ti.

Hei Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a gwyrdd
Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni.
Hei Mistar Urdd, ty'd am dro ar hyd y ffyrdd
Cawn ganu'n cân i holl ieuenctid Cymru